| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Cabinet | Dyddiad: | 22 Mehefin 2016 |
| | | Rhif Union: | 01824712568 |
| | | ebost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 28 MEHEFIN 2016** am **10.00 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O GYSYLLTIAD**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 7 - 16)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 24 Mai 2016 (copi'n amgaeedig).

**5 CYNLLUN DIRPRWYO I AELODAU ETHOLEDIG** (Tudalennau 17 - 24)

I ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Barbara Smith, Aelod Arweiniol Moderneiddio a Thai (copi'n amgaeedig), yn ceisio cytundeb y Cabinet i newid y ffordd y gwneir penderfyniadau dirprwyedig a natur y dirprwyo i Aelodau Arweiniol.

**6 RHEOLAU'R WEITHDREFN CONTRACTAU - NEWID ARFAETHEDIG I'R TROTHWYON AWDURDODI SWYDDOGION** (Tudalennau 25 - 32)

I ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, y Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad (copi'n amgaeedig), yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i'r cynnig i newid trothwyon awdurdodi swyddogion o fewn Rheolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor.

**7 ADRODDIAD PERFFORMIAD Y CYNLLUN CORFFORAETHOL – CHWARTER 4 – 2015/16** (Tudalennau 33 - 82)

I ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad (copi'n amgaeedig) yn rhoi diweddariad ar ddarparu Cynllun Corfforaethol 2012 – 17 ar ddiwedd chwarter 4 2015/16.

**8 CANLYNIAD REFENIW TERFYNOL 2015/16** (Tudalennau 83 - 96)

I ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad (copi'n amgaeedig), yn manylu ar sefyllfa refeniw'r Cyngor a cheisio cymeradwyaeth y Cabinet o'r driniaeth arfaethedig o'r balans.

**9 ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 97 - 112)

I ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau (copi'n amgaeedig) yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd ar strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni.

**10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET** (Tudalennau 113 - 116)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet sydd wedi'i hamgáu, a nodi'r cynnwys.

## RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem ganlynol o fusnes yn cael ei thrafod oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y'i diffinnir ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodlen 12A y Ddeddf.

**11 FFRAMWAITH CYNNAL A CHADW ADWEITHIOL (MÂN WAITH)** (Tudalennau 117 - 128)

I ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad (copi'n amgaeedig), yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i benodi contractwyr i'r Fframwaith Cynnal a Chadw adweithiol.

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

| | |
|---|---|
| Hugh Evans | Hugh Irving |
| Julian Thompson-Hill | Huw Jones |
| Eryl Williams | Barbara Smith |
| Bobby Feeley | David Smith |

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned